**Penodi Aelodau Bwrdd newydd - Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe**

## Am Wobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe

Mae Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe, a lansiwyd yn 2006, yn un o'r gwobrau uchaf eu bri i awduron ifanc, a'i nod yw annog doniau creadigol craidd yn fyd-eang. Mae'n dathlu ac yn meithrin rhagoriaeth lenyddol ryngwladol. Mae'r wobr, sy'n werth £20,000, yn un o'r gwobrau llenyddol uchaf eu bri yn y DU, yn ogystal ag un o'r gwobrau llenyddol mwyaf i lenorion ifanc. Dyfernir y wobr am y gwaith llenyddol cyhoeddedig gorau yn Saesneg gan awdur 39 oed neu'n iau. Mae'n dathlu ffuglen ryngwladol o bob math, gan gynnwys barddoniaeth, nofelau, straeon byrion a dramâu. Mae'r wobr wedi'i henwi ar ôl Dylan Thomas, llenor a aned yn Abertawe, ac mae'n dathlu ei 39 mlynedd o greadigrwydd a chynhyrchiant. Ac yntau'n un o awduron mwyaf dylanwadol ac o fri rhyngwladol canol yr ugeinfed ganrif, mae'r Wobr yn ei gofio ac yn cefnogi ac yn meithrin doniau awduron heddiw ac yfory.

DylanED yw rhaglen addysgol Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe, sy'n dathlu ac yn annog lleisiau creadigol pobl ifanc a'r rheiny o ardaloedd mwy anodd eu cyrraedd. Mae DylanED yn gweithio mewn cydweithrediad ag ystod o bartneriaid allweddol ar draws de Cymru, rhannau eraill o'r DU, ac yn rhyngwladol, gan ddod â chymunedau a chyn-enillwyr Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe ynghyd mewn ffyrdd cyffrous, arloesol a hygyrch.

## Aelodau Bwrdd Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe

Rydym yn chwilio am dri aelod newydd i ymuno â'n Bwrdd Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe. Mae 2025 yn amser cyffrous i Wobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe wrth i ni nodi ugain mlynedd ers i'r Wobr gael ei dyfarnu am y tro cyntaf yn 2006. Fel aelod o'r Bwrdd, byddwch yn angerddol am lenyddiaeth, llythrennedd a chreadigrwydd a bydd gennych brofiad o'r celfyddydau neu faes sy'n gysylltiedig â diwylliant. Croesawn geisiadau gan ddarpar aelodau o'r bwrdd o ystod amrywiol o gefndiroedd ac nid yw profiad blaenorol ar lefel aelod bwrdd yn hanfodol.

Fel aelod Bwrdd Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe, byddwch yn chwarae rôl bwysig fel rhan o'r Pwyllgor gan oruchwylio gwaith i reoli'r wobr lenyddol, yn ogystal â rhan o'i gangen allgymorth ac addysgol, DylanED.

Rydym yn chwilio am aelodau newydd o'r Bwrdd sydd â gwybodaeth mewn un neu fwy o'r tri maes canlynol:

- Ymgyrchoedd / gweithgareddau codi arian a nawdd
- Profiad o gynnal gweithdai/rhaglenni creadigol i bobl ifanc a chymunedau o oedolion mwy anodd eu cyrraedd.
- Profiad o wobrau llenyddol neu ddiwylliannol eraill

Mae'r Bwrdd yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn ac mae cyfarfodydd yn hybrid. Mae hon yn swydd ddi-dâl, ond bydd treuliau teithio i gyfarfodydd y bwrdd yn cael eu had-dalu.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'n Bwrdd, byddwn wrth ein boddau'n clywed gennych. Anfonwch eich CV a llythyr cais (uchafswm o 1,000 gair) i DTPrize@abertawe.ac.uk gan gynnwys 'SUDTP Board Member Application' fel teitl eich e-bost.

Cysylltwch â Dr Elaine Canning, Cyfarwyddwr Gwobr Dylan Thomas Prifysgol Abertawe ar gyfer ymholiadau anffurfiol: e.canning@abertawe.ac.uk

Dyddiad cau: Dydd Llun 10fed Chwefror 2025

**Appointment of new Board Members – the Swansea University Dylan Thomas Prize (SUDTP)**

## About SUDTP

Launched in 2006, the Swansea University Dylan Thomas Prize is one of the most prestigious awards for young writers, aimed at encouraging raw creative talent worldwide. It celebrates and nurtures international literary excellence. Worth £20,000, it is one of the UK's most prestigious literary prizes as well as one of the world's largest literary prizes for young writers. Awarded for the best published literary work in the English language, written by an author aged 39 or under, the Prize celebrates the international world of fiction in all its forms including poetry, novels, short stories and drama. It is named after the Swansea-born writer, Dylan Thomas, and celebrates his 39 years of creativity and productivity. One of the most influential, internationally-renowned writers of the mid-twentieth century, the prize invokes his memory to support the writers of today and nurture the talents of tomorrow.

DylanED is the SUDTP's educational progamme, celebrating and encouraging the creative voices of young people and those from harder to reach areas. DylanED works in collaboration with a range of key partners across south Wales, other parts of the UK, and internationally, bringing together communities and SUDTP alumni in exciting, innovative, and accessible ways.

## SUDTP Board Members

We are seeking three new members to join our SUDTP Board. 2025 is an exciting time for the SUDTP as we mark the twentieth year since the Prize was first awarded in 2006. As a Board member, you will be passionate about literature, literacy and creativity and have experience in an arts or culture-related area. We welcome applications from prospective board members from a diverse range of backgrounds and previous board-level experience is not essential.

As a SUDTP Board member, you will play an important role as part of the Committee overseeing the management of the literary award, as well as of its educational and outreach constituent strand, DylanED.

We are seeking new Board members with knowledge in one or more of the following three areas:

- Fundraising campaigns / activities and sponsorship
- Experience of delivering creative workshops/programmes for young people and harder to reach adult communities
- Experience of literary or other cultural prizes

The Board meets four times per year and meetings are hybrid in format. This is an unremunerated post, but return travel expenses to Board meetings will be reimbursed.

If you are interested in joining our Board, we would be delighted to hear from you. Please forward a CV and letter of application (1,000 words maximum) to DTPrize@swansea.ac.uk Please include 'SUDTP Board Member Application' in the subject title of your email.

For informal enquiries, please contact Dr Elaine Canning, Director, SUDTP: e.canning@swansea.ac.uk

Closing date: Monday 10th February 2025